

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**  
**4 RHAGFYR 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 4 Rhagfyr 2019.

**YN BRESENNOL: Y Cyngorydd David Wisinger (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Adele Davies-Cooke, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Ian Dunbar a Veronica Gay

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mynychodd y canlynol fel Aelodau lleol:  
Y Cyngorydd Martin White ar gyfer eitem 6.1 (060356) ar y rhaglen

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd ac Economi); Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Uwch Gynllunwyr; Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Uwch Gyfreithiwr; Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd; a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**38. DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cyngorydd Attridge gysylltiad personol yn eitem 6.2 ar y rhaglen (060048) gan fod gwrthwynebwyr wedi cysylltu ag o ar fwy na thri achlysur.

Datganodd y Cyngorydd Peers gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn eitem 6.4 ar y rhaglen (059665), gan ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Heol y Mynydd a fyddai'n elwa o gyfraniad ariannol addysg petai'r Pwyllgor yn rhoi caniatâd. Roedd gan ei gyd-aelod ward gysylltiad materol yn y cais. Felly gadawodd yr ystafell cyn y drafodaeth a phleidlais ar yr eitem hon.

Yn ystod y drafodaeth am eitem 6.1 ar y rhaglen (060356), dywedodd y Cyngorydd Kevin Hughes ei fod yn adnabod yr ymgeisydd o ychydig flynyddoedd yn ôl. Fe eglurodd fod yr ymgeisydd wedi chwarae pêl-droed mewn tîm dan 12 yr oedd wedi'i reoli ac roedd yn credu ei fod dal yn ffrindiau gyda'i fab.

Cyn y drafodaeth am eitem 6.3 ar y rhaglen (059568), datganodd y Cyngorydd Butler cysylltiad personol sy'n rhagfarnu gan ei fod yn aelod o Gyd-bwyllgor Cyngori Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd oedd wedi cyflwyno sylwadau yn erbyn y cais. Felly gadawodd yr ystafell cyn y drafodaeth a phleidlais ar yr eitem hon.

**39. SYLWADAU HWYR**

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a ddosbarthwyd yn y cyfarfod, ac yr oedd wedi'u hatodi i'r agenda ar wefan Cyngor Sir Y Fflint:

<http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MI d=4475&LLL=0>

**40. COFNODION**

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfod ar 6 Tachwedd 2019 eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnod cywir.

**41. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Nid oedd dim eitemau wedi'u hargymell gan swyddogion i'w gohirio.

**42. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Bod y penderfyniadau hynny yn cael eu cofnodi fel y dengys yn yr atodlen Cais Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

**43. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Roedd 23 aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 4pm)

.....  
**Y Cadeirydd**

Mae cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cynllunio yn cael eu gweddarlledu a gellir eu gwyllo drwy fynd ar lyfrgell gweddarllediad yn: <http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home>

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 4 RHAGFYR 2019**

<b>RHIF</b>	<b>CYNGOR TREF/ CYMUNED</b>	<b>SAFLE / CYNNIG</b>	<b>SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU</b>	<b>PENDERFYNIAD</b>
060356	Cyngor Tref Cei Connah	Cais Llawn – Codi estyniad dau lawr i annedd yn Nhŷ Cornel, Park Grove, Cei Connah.	Siaradodd Mrs. S. Townsend yn erbyn y cais.  Siaradodd Mr. L. Partington (ymgeisydd), o blaid y cais.  Siaradodd y Cynghorydd M. White, fel Aelod Lleol yn erbyn y cais.	Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog.
060048	Cyngor Cymuned Penarlâg	Cais Llawn – Dymchwel Adeiladau'r Mynachdy, St. Damien's Lodge a Thai Allan Cysylltiedig ac Ailddatblygu'r safle gyda 15 Tŷ yn Mynachdy Poor Claire Collettine, Upper Aston Hall, Penarlâg.	Siaradodd Dr. E. Ward yn erbyn y cais.  Siaradodd Mr. G. Tewhella (asiant) yn cefnogi'r cais.	Gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, yn groes i argymhelliad swyddog, ar y sail ganlynol: Roedd y cynigion gyfystyr â datblygiad amhriodol yn y Rhwystr Glas a chefn gwlad agored, ac nid oedd 'amgylchiadau eithriadol iawn' yn adran 7.21 o'r adroddiad wedi'u hystyried yn ddigonol i roi caniatâd.

<b>RHIF</b>	<b>CYNGOR TREF/ CYMUNED</b>	<b>SAFLE / CYNNIG</b>	<b>SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU</b>	<b>PENDERFYNIAD</b>
059568	Cyngor Cymuned Cilcain	Cais Amlinellol ar gyfer adeiladu annedd gweithwyr amaethyddol ar Fferm Maes Alyn, Ffordd Loggerheads, Cilcain.	Ni fu i'r Cynghorydd Butler, a ddatganodd gysylltiad personol sy'n rhagfarnu, siarad am yr eitem, a gadawodd yr ystafell cyn y drafodaeth, gan ddychwelyd ar ôl i'r Pwyllgor benderfynu ar y cais.  Siaradodd Mr. S. Griffiths (ymgeisydd) o blaid y cais.	Rhoi caniatâd cynllunio, yn erbyn argymhelliad y swyddog, yn ddarostyngedig ar amodau priodol a/neu Rwymedigaeth A106. Bydd amodau o'r fath yn cael eu dirprwyo i'r Prif Swyddog i benderfynu ar y cyd â'r ymgeisydd a'r Aelod Lleol. Adroddiad ar yr amodau i'w gyflwyno gerbron y Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol.
059665	Cyngor Tref Bwcle	Cais i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl yn dilyn cymeradwyaeth amlinellol 055936 yn Hillcrest, Mount Pleasant Road, Bwcle.	Ni fu i'r Cynghorydd Peers, a ddatganodd gysylltiad personol sy'n rhagfarnu, siarad am yr eitem, a gadawodd yr ystafell cyn y drafodaeth, gan ddychwelyd ar ôl i'r Pwyllgor benderfynu ar y cais.  Siaradodd Mr. D. Fitzsimon (yr asiant) o blaid y cais.	Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog.
060478	Cyngor Cymuned Mostyn	Cais Llawn - Ymestyn Strwythur Gwaith Cemegol presennol (Y Safle AED) i gynnwys offer prosesu newydd yn Warwick International Ltd, Coast Road, Mostyn.		Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog.

<b>RHIF</b>	<b>CYNGOR TREF/ CYMUNED</b>	<b>SAFLE / CYNNIG</b>	<b>SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU</b>	<b>PENDERFYNIAD</b>
<b>APÊL</b>			<b>NODWYD</b>	
060052		Apêl gan V. Davies yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu estyniad llawr cyntaf i gefn 23 Alyn Bank, Heol y Brenin, Yr Wyddgrug – GWRTHODWYD.		